Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

PDF Argraffu Cyfeirnodi

JONES, THOMAS (1818 - 1898), clerc plwyf

Enw: Thomas Jones
Dyddiad geni: 1818
Dyddiad marw: 1898
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerc plwyf
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
Awdur: William Llewelyn Davies

Llanfaethlu, sir Fôn. Bu'n byw yn Tynllan ac yn Newhavren, Llantrisant, sir Fôn, cyn dyfod yn glerc plwyf Llanfaethlu. Haedda ei goffáu yn rhinwedd y casgliad helaeth o lawysgrifau cerddoriaeth a ysgrifennodd ef â'i law ei hun neu a gynhullodd, casgliad o dros ddeugain o gyfrolau a roddwyd i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn 1919 gan yr archdeacon Albert Owen Evans. Er mai mewn caniadaeth eglwysig a chynulleidfaol yr ymddiddorai Thomas Jones fwyaf, ceir yn y casgliad hwn (NLW MS 8112-52) enghreifftiau o gerddoriaeth arall hefyd, gan gynnwys caneuon gwerin, rhanganau, caneuon. Y mae o werth am fod ynddo esiamplau o waith cynifer o gerddorion hysbys a llai hysbys, llawer ohonynt yn gyfoeswyr â Thomas Jones. Bu farw 25 Mawrth 1898.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales. ii, 12-6,

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734484

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Davies, W. Ll., (1953). JONES, THOMAS (1818 - 1898), clerc plwyf. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 8 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-THO-1818

Copïo'r cliptrwdd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government